Cyngor Dinas Bangor

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid

Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026, Neuadd y Penrhyn, 4:00 pm

Yn bresennol

Cynghorwyr:	Cyng.: John Wynn Jones (Cadeirydd), Gwynant Roberts (Is-Gadeirydd), Delyth Russell, Medwyn Hughes, Gareth Parry, Eirian Williams Roberts, Steve Bell
Swyddogion:	Lisa Goodier, Cyfarwyddwr Dinesig Dros Dro Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol
Eraill:	-
Ymddiheuriadau:	Cyng: Elin Walker Jones, Jackie Spence, Huw Wyn Jones, Dylan Fernley
Absennol heb ymddiheuriad:	Cyng: Huw Wyn Jones, Dylan Fernley

---

Dechreuodd y cyfarfod am 4:00 pm

Eitem	Cyfeirnod	Gweithredu
1.		**Ymddiheuriadau:** Cyng: Elin Walker Jones, Jackie Spence, Huw Wyn Jones, Dylan Fernley
2.		**Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol** Dim.
3.		**Cymeradwyo'r rhestr daliadau** Dosbarthwyd rhestr daliadau am yr anfonebau dyddiedig Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2026 i'r Aelodau yn y cyfarfod. Craffodd yr Aelodau ar yr anfonebau ar y rhestr daliadau gan ofyn cwestiynau i'r swyddogion. **Penderfynwyd:** Awdurdodi taliadau ar y rhestr oedd yn dod i gyfanswm o **£48,798.93 ac eithrio TAW** Gwnaed y sylwadau canlynol gan y pwyllgor ar yr eitem agenda hon: • Gofynnodd yr aelodau am gael system rifo/cyfeirnodi ar bob rhestr daliadau a gyflwynir i'r Pwyllgor er mwyn eu hadnabod a'u trafod yn haws. • Fod y cytundeb â Blanchere Illumination yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel bod yr Aelodau'n deall beth sydd wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth Goleuadau Nadolig. • Fod pob anfoneb i Huws Gray yn cael ei thalu'n unigol yn hytrach nac fel taliad swmp am anfonebau lluosog.

- I'r swyddogion holi a ellir cael Canva Pro heb ffi, gan fod un Aelod yn tybio y gallai fod ar gael i lywodraeth leol a mudiadau'r trydydd sector am ddim.
- **Gweithredu:** Taliadau debyd uniongyrchol i'w cynnwys ar y rhestr daliadau i'w nodi gan y Pwyllgor Cyllid.
- **Gweithredu:** Swyddogion i egluro pa anfonebau sy'n ymwneud â Karmic Synergy a pha rai sy'n ymwneud ag enw parth y Cyngor.
- **Gweithredu:** Swyddogion i wirio gyda Chyngor Gwynedd a wnaed arolwg cyflwr o Doiledau Pier y Garth.
- **Gweithredu:** Swyddogion i roi copi i'r Pwyllgor Cyllid o arolwg YGC ar y Pier.
- **Gweithredu:** Swyddogion i ddiweddaru'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwreiddiol rhwng Cyngor Dinas Bangor a Ffrindiau Pier Garth i gynnwys trefniadau i drin yr arian a godir wrth fynedfa'r Pier.
- **Gweithredu:** Swyddogion i gael dyfynbrisiau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau TG i Gyngor Dinas Bangor yn y dyfodol.
- **Gweithredu:** Swyddogion i gyflwyno'r cytundeb rhwng Cyngor Dinas Bangor ac Ynni Ogwen i'r Pwyllgor Cyllid fel y gellir craffu ar y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau ac i'r Aelodau gael mwy o wybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am: 4:55 pm.

Llofnodwyd gan: **.....**

Dyddiad: **.....**